

Presenoldeb ac Absenoldeb

Yn Ysgol Ieuan Gwynedd, rydym yn ystyried presenoldeb a phrydlondeb yn elfen bwysig iawn er mwyn i'ch plentyn/plant fanteisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae'n bwysig felly bod y plant yma'n rheolaidd erbyn 8.55yb er mwyn cychwyn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon am 9.00y.b!

Rydym, wrth gwrs, yn deall bod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill yn achlysurol. Pan fo hyn yn digwydd, a fuasech cystal a ffonio'r ysgol os gwelwch yn dda a danfon nodyn ysgrifenedig pan mae eich plentyn/plant yn dychwelyd. Gallwch gael ffurflen bwprpasol i'w lenwi os ydych yn trefnu gwyliau teuluol yn ystod tymor yr ysgol.

YR YSGOL SYDD A CHYFRIFOLDEB DROS EICH PLENTYN/PLANT O 8.55y.b. tan 3.30y.p.

Absenoldebau

Y mae rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol parthed absenoldebau o'r ysgol yn datgan fod yn rhaid i ysgol dderbyn eglurhad gan rieni pan fo plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol. Felly, er mwyn cyd-fynd â'r canllawiau hynny, os na fyddwn yn derbyn eglurhad yn uniongyrchol gennych chi, boed hynny ar lafar neu ar ffurf nodyn, pan fydd eich plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol, bydd yr absenoldeb hwnnw yn cael ei nodi fel un "heb ei awdurdodi".

Hyd yn oed os y derbynnir eglurhad gennych, mae'n bosibl y caiff yr absenoldeb ei nodi fel un "heb ei awdurdodi", os nad yw'r eglurhad yn un derbyniol.

Ystyrir y rhesymau canlynol yn ddilys ac fe nodir unrhyw absenoldeb fel un "awdurdodedig" - salwch, gwyliau teuluol, profedigaeth, argyfwng annisgwyl e.e. eira trwm, triniaeth feddygol neu ddeintyddol brys.

Ystyrir y rhesymau canlynol yn rhai annilys, ac felly fe nodir unrhyw absenoldeb fel un "heb ei awdurdodi" - "roedd yn helpu gyda'r cynhaeaf/cneifio ddoe", "...bu'n rhaid i ni fynd i Wrecsam i brynu esgidiau newydd iddo", ".....roedd wedi blino ar ôl i ni fynd i ffwrdd am y penwythnos".